# Diwygiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793: Rheolaethau a Gynhelir ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid a Fewnforir nad ydynt yn Dod o Anifeiliaid

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 14 Ebrill 2022
Dyddiad cau: 7 Gorffennaf 2022

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr, awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd, a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant mewn diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae Safonau Bwyd yr Alban wedi lansio ymgynghoriad cyfochrog ar wahân yn yr Alban.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau rheolaidd arfaethedig i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 sy'n cymhwyso cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol ac amodau arbennig sy'n llywodraethu mynediad bwyd a bwyd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr o wledydd penodol.

## Diben yr ymgynghoriad

Gofyn am sylwadau rhanddeiliaid ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793.

## Pecyn ymgynghori

Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn darparu'r **wybodaeth gefndirol** a'r manylion y bydd angen i chi eu gwybod er mwyn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

### England and Wales

PDF
Gweld Ymgynghoriad Bwyd Wedi'i Fewnforio - Rheoliad - 2019.1793 as PDF(Open in a new window) (227.55 KB)

## Sut i ymateb

Dylid ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy anfon neges âr teitl 'Ymgynghoriad Rheoliad 2019/1793' i:

- yng Nghymru: LASupportWales@food.gov.uk
  neu
- yn Lloegr: imported.food@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.